disability wales
anabledd cymru

# AROLWG 2014-2015

Fersiynau Braille, print bras, tâp sain
neu ddisg ar gael.

Mae Anabledd Cymru yn derbyn cyllid
gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd gan Anabledd Cymru 2015
Cyfieithiwyd gan beuno.com
Dyluniwyd gan Andy Dark
Argraffwyd gan Cambrian Printers
Anabledd Cymru yn elusen gofrestredig, rhif 517391
ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant, rhif 1998621

**Tŷ'r Bont**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol Van**
**Caerffili**
**CF83 3GW**

**Ffôn:** 029 2088 7325
(Minicom drwy'r cyhoeddwr)
**Ffacs:** 029 2088 8702
**Ebost:** info@disabilitywales.org
**Gwefan:** www.disabilitywales.org

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

disability wales
anabledd cymru

## Cenhadaeth

Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol cyrff pobl anabl sy'n brwydro dros hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pob person anabl.

## Nodau strategol

Datblygu a chefnogi gwaith cyrff a arweinir gan bobl anabl

Gweithredu fel adfocad effeithiol o farn, blaenoriaethau a diddordebau ein haelodau

Dylanwadu ar bolisïau a llunwyr penderfyniadau ar bob lefel

Datblygu a darparu gwasanaethau er lles pobl anabl

# Adroddiad
## y Cadeirydd

Unwaith eto, mae'n bryd llunio adroddiad! Ein cyfle i adolygu gwaith yr elusen dros y flwyddyn ddiwethaf, cyfnod prysur iawn.

Dyma drydedd flwyddyn ein grant Adran 64 gan Lywodraeth Cymru ac fel gweddill y sector gwirfoddol, mae arian wedi bod yn dynn, gan fynnu torri cyllidebau hyd yn oed yn fwy. Mae hynny wedi effeithio pob un o'n gweithgareddau, gan arwain at newidiadau tebyg i gyrff eraill sy'n dibynnu ar gyllid allanol. Fodd bynnag, er y cyni ariannol, llwyddwyd i wneud llawer o waith, gyda rhai datblygiadau cyffrous yn eu plith.

Er enghraifft, **project Galluogi Cymru:** Cynllun i ddatblygu canolfannau byw'n annibynnol, a lansiwyd o dan arweiniad ein swyddog datblygu Rhiannon Hicks, sy'n gweithio gyda Chanolfan Byw'n Annibynnol Dewis a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Mae gweithdai a chymorth y project wedi derbyn croeso mawr, gydag aelodau a'r gymuned ehangach wedi elwa hyd yma.

**Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion (CDCC):** Project newydd arall a lansiwyd yn ffurfiol ar ddiwedd Mawrth 2015. Gweithiodd y swyddog project, Rebecca Newsome, yn galed iawn i baratoi'r lansiad ar ôl ymuno â ni ar y diwrnod cyn cyfarfod blynyddol y llynedd yn Wrecsam, gan drefnu rhestr anhygoel o gyfranogwyr, yn cynnwys y prif westai, Dr Adolph Ratzka, sylfaenydd STIL yn Sweden, y fenter byw'n annibynnol gyntaf yn y byd. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru hefyd yn bartner ar y project hwn, gyda'r nod o hybu byw'n annibynnol wrth adeiladu ar y Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â Galluogi Cymru er mwyn hwyluso byw'n annibynnol ar gyfer pobl anabl yng Nghymru a thu hwnt.

Mae ein gwaith i wella cynhwysiad digidol yn ehangu, wrth gynyddu defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, Facebook a Twitter yn benodol. Fel corff, mae Anabledd Cymru yn parhau i ddatblygu defnydd o adnoddau cyfathrebu electronig, er



rhaid cydnabod nad yw pob aelod yn gallu defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu'n rheolaidd.

> **Er y cyni ariannol, llwyddwyd i wneud llawer o waith**

Er bod aelodau Bwrdd Anabledd Cymru yn dal i gynnal rôl strategol a llywodraethol, mae rhai aelodau hefyd yn ein cefnogi wrth rannu sgiliau arbenigol o fewn y corff. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn parhau â'i waith pwyllgor arferol, gan fynychu cyfarfodydd grwpiau project ymgynghorol, sesiynau hyfforddi a gweithdai.

Croeso i Simon Green, aelod newydd o'r Bwrdd a etholwyd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

Profodd yn flwyddyn heriol iawn i ni ac eraill yn nhermau cyllid. Fodd bynnag, hoffwn fachu ar y cyfle hwn i ddiolch y Bwrdd am eu hymroddiad, gwaith a chymorth. Diolch yn arbennig hefyd i Rhian Davies, ein prif weithredwraig a'n holl staff am eu gwaith a chymorth gydol y cyfnod. Mae cyrff sector gwirfoddol yn wynebu heriau mawr ar hyn o bryd, ond unwaith eto rydym wedi mwynhau blwyddyn weithgar a llwyddiannus.

Diolch i bob un ohonoch.

**Wendy Ashton** *Cadeirydd*

# Adroddiad
## y Trysorydd

Yn gyntaf, hoffwn gyflwyno fy hun i chi ar ôl cael fy mhenodi'n drysorydd Anabledd Cymru yn dilyn y cyfarfod blynyddol diwethaf. Fy enw yw Mandi Glover, rwyf wedi bod yn aelod o Fwrdd Anabledd Cymru am oddeutu chwe blynedd. Mae gen i brofiad eang o'r sector anabledd gwirfoddol ac rwyf wedi bod yn rhan o nifer o gyrff cysylltiedig ar lefel Bwrdd. Rwyf wedi hen arfer â gwaith beunyddiol cyrff yn y sector, yn arbennig ym meysydd cyllid, adnoddau dynol a llywodraethu.

Diolch yn fawr i'r Bwrdd a staff, yn benodol ein prif weithredwraig a'r rheolwraig swyddfa, am fy helpu i setlo yn rôl y trysorydd. Dim ots faint o brofiad sydd gennych, mae bob amser llawer i ddysgu!

### 2014-2015

Dyma drydedd flwyddyn ein rhaglen gyllid a gweithiwyd yn galed i fodloni ymrwymiadau a gwireddu amcanion, a gosod strategaeth ar gyfer y dyfodol. Er y pwysau ariannol ar y sector gwirfoddol, rydym wedi mwynhau blwyddyn brysur a chynhyrchiol iawn. Yn debyg i'r blynyddoedd cynt, roedd llai o gyllid ar gael, felly canolbwyntiwyd ar chwilio am ffynonellau arian amgen a chydweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd dau broject cyffrous – *Galluogi Cymru a Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion* – y ddau ohonynt yn adeiladu ar ein profiad a gwybodaeth, ond hefyd yn edrych tua'r dyfodol.

Mae'r ddau broject yn adlewyrchu'r nod o ddenu incwm o wahanol ffynonellau, ar y cyd â'n projectau Lleisiau Cymunedol – yn darparu hyfforddiant yn sir Benfro ac ardal Penybont, a phroject Cymunedau 2.0 *Bywydau Digidol* yn ceisio sicrhau bydd pobl anabl yn rhan o'r byd digidol.

### Argymhellion yr archwilwyr

Roedd prif argymhellion yr archwilwyr yn gysylltiedig â diogelu ein harian o fewn y terfynau a warentir gan y llywodraeth.



Mae hynny'n unol â'r polisi sy'n diogelu symiau hyd at £85,000 gydag unrhyw ddaliwr trwydded ariannol. Gyda'r maes bancio'n newid a sefydliadau'n cydsoddi, mae'n anos lledu ein cyllid yn ddigon eang er diogelu pob ased. Ond, mae Anabledd Cymru yn dal i gadw golwg craff ar y sefyllfa ac yn y broses o drosglwyddo cronfeydd i ddarparwyr eraill, er enghraifft cyfrifon banc gwahanol, er mwyn eu diogelu gymaint â phosibl rhag ofn bydd unrhyw un sefydliad ariannol yn wynebu problemau.

**Edrych ymlaen**

Un her fawr bydd rhaid paratoi ar ei chyfer yw'r rheolau pensiwn newydd. Er na fydd yn effeithio Anabledd Cymru tan hydref 2016, rydym eisoes yn edrych ar yr effeithiau ar ein corff a'n cyllid.

Ar ddiwedd ein cylch cyllid tair blynedd, rydym yn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer 2015-16 mewn cysylltiad â'r gweithgareddau craidd mae Llywodraeth Cymru yn cyllido ar hyn o bryd, ond gyda gostyngiad effeithiolrwydd o 5%. Yn y cyfamser, rydym yn chwilio am gyfleoedd cyllid mwy hir dymor a ffynonellau ariannol eraill er mwyn sicrhau dyfodol cadarn a chynaladwy.

Yn olaf, diolch i Paula Reed, ein rheolwraig swyddfa, am ei gwaith yn paratoi'r cyfrifon a'r gwaith papur cysylltiedig, a chyfrifwyr ac archwilwyr Broomfield & Alexander am eu cyngor a chymorth drwy gydol y flwyddyn.

**Mandi Glover** *Trysorydd*

# Datganiad gweithgaredd Ariannol

Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2015 | Cyfanswm 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **INCWM** | | | | |
| **Incwm o gynhyrchu cyllid** | | | | |
| Incwm gwirfoddol | 423,357 | | 423,357 | 423,545 |
| Incwm buddsoddi | 278 | - | 278 | 6,820 |
| **Incwm o weithgaredd elusennol** | | | | |
| Darparu gwasanaethau | 34,354 | - | 34,354 | 35,500 |
| Grantiau | - | 189,729 | 189,729 | 121,546 |
| ***Cyfanswm incwm*** | **457,989** | **189,729** | **647,718** | 587,411 |

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2015 | Cyfanswm 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithgaredd elusennol | 425,541 | 196,334 | 621,875 | 575,567 |
| Costau llywodraethu | 34,393 | - | 34,393 | 39,066 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | **459,934** | **196,334** | **656,268** | 614,633 |
| ***Symudiadau cronfeydd net*** | **(1,945)** | **(6,605)** | **(8,550)** | (27,222) |
| **Cysoni cronfeydd** | | | | |
| Cronfeydd dygwyd ymlaen | **390,887** | **8,935** | **399,822** | 427,044 |
| ***Cronfeydd cariwyd ymlaen*** | **388,942** | **2,330** | **391,272** | **399,822** |

# Datganiad gweithgaredd Ariannol

Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015

## Mantolen

| | 2015 £ | 2015 £ | 2014 £ | 2014 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | **91,058** | – | 50,505 | – |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | **377,187** | – | 404,109 | – |
| | **468,245** | – | 454,614 | – |
| **Rhwymedigaethau** | | | | |
| Credydwyr: symiau dyledus o fewn blwyddyn | **(76,973)** | – | (54,792) | – |
| **Asedau cyfredol net** | | **391,272** | | 399,822 |
| **Asedau net** | | **391,272** | | 399,822 |
| **Cronfeydd yr elusen** | | | | |
| Cronfeydd cyfyngedig | | **2,330** | | 8,935 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | **389,942** | | 390,887 |
| ***Cyfanswm cronfeydd yr elusen*** | | **391,272** | | 399,822 |

**Broomfield & Alexander**

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Tŷ Derw, Lime Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, CF32 8AB

# Bwrdd
## Cyfarwyddwyr 2014/2015

**Cadeirydd**
Wendy Ashton

**Is-gadeirydd**
April Harper
Stephen Sweetman

**Trysorydd**
Mandi Glover

**Aelodau Bwrdd**
Simon Green (*etholwyd 15 Hydref 2014*)
Natasha Hirst
Terry Mills
Trevor Palmer
David Power
Alan Thomas



# Cyflwyniad ein
## Prif Weithredwraig

Mae Anabledd Cymru yn brwydro i fynnu hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth ar gyfer pobl anabl ac yn parhau i weithio tua'r nod er yr amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd heriol sy'n cael effaith sylweddol ar bobl anabl.

Yn y gorffennol, canolbwyntiodd ein gwaith ar geisio cael dull strategol cenedlaethol o helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol. Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus Byw'n Annibynnol Nawr!, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd yn 2013.

Dros y flwyddyn ddiwethaf canolbwyntiodd AC ar weithredu egwyddorion y Fframwaith ar draws deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a sefydlu a chynnal projectau arloesol. Mae'r egwyddorion hynny'n adlewyrchu Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig, y Model Anabledd Cymdeithasol a phwysigrwydd dull sy'n gweithredu ar draws pob maes polisi a gwasanaeth.

Mae AC wedi cynnal ei rôl graidd wrth adlewyrchu barn a blaenoriaethau'r aelodau i'r llywodraeth gyda'r nod o hysbysu a dylanwadu ar bolisïau'n gysylltiedig â nifer o ddarnau deddfwriaeth yn cynnwys Teithio Llesol, Cynllunio ac yn benodol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru (2014).

Hyd yma, mae ein profiad yn awgrymu bod llawer o waith o'n blaenau cyn bydd polisïau'r llywodraeth yn ymgorffori'r hawl i fyw'n annibynnol. Mae hefyd wedi dangos bod tai, trafnidiaeth, cynllunio, rheoliadau adeiladu a phriffyrdd yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach nag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gyda hynny mewn golwg, cysylltodd AC â'r aelodau er mwyn datblygu Maniffesto Pobl Anabl erbyn Etholiadau 2016 y Cynulliad Cenedlaethol.



Fel arfer, derbyniwyd ymateb da gan yr aelodau gyda dros 60 yn mynychu sioe deithiol y Maniffesto o gwmpas y wlad, a dros 140 yn ymateb i'r arolwg. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r angen am ddeddfwriaeth yn ymgorffori'r hawl i fyw'n annibynnol yn unol ag Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig, yn cynnwys mesurau i daclo tlodi a throseddau atgasedd anabledd.

Mae AC yn enwog am ei rôl ym maes ymgyrchu a dylanwadu ar bolisïau ac yn awr mae'n ymestyn ei waith i ddatblygu a gweithredu projectau arloesol. Eleni, cwblhawyd project Bywydau Digidol gyda chyllid Cymunedau 2.0 a ddarparodd hyfforddiant cynhwysiad digidol ar gyfer 530 person anabl ar draws y wlad. Yn y cyfamser, dechreuwyd projectau cymunedol Cynllunio ar y Cyd yn sir Benfro a Phenybont gyda chyfres o gyrsiau hyfforddi poblogaidd er adeiladu gallu grwpiau lleol i gysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus.

> **Mae AC wedi cynnal ei rôl graidd wrth adlewyrchu barn a blaenoriaethau'r aelodau i'r llywodraeth gyda'r nod o hysbysu a dylanwadu ar bolisïau.**

Yn ogystal, lansiwyd dau broject mawr: Galluogi Cymru gyda chymorth Grant Cydraddoldeb & Cynhwysiad Llywodraeth Cymru; a Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion gyda chyllid gan gronfa arloesi'r Loteri Fawr. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn bartner ar y ddau broject a Chanolfan Byw'n Annibynnol Dewis yn bartner gyda Galluogi Cymru.

Mae'r ddau broject yn darparu hyfforddiant ac adnoddau ar draws y wlad er datblygu gallu pobl anabl i sefydlu cyrff eu hunain, yn arbennig canolfannau byw'n annibynnol a

mentrau cydweithredol i helpu unigolion i reoli eu taliadau uniongyrchol. Yn ogystal, mae Galluogi Cymru yn cysylltu â phobl ifanc anabl er mwyn eu helpu i ddatblygu rhwydwaith eu hunain.

Mae cynnal rhwydwaith llewyrchus o gyrff pobl anabl wedi bod yn nod hir dymor gan AC, yn arbennig am ein bod yn tueddu i lusgo tu ôl gweddill y Deyrnas Unedig yn y maes. Ond, mae newid yn yr hinsawdd polisi a gostyngiad mewn cyllid cyhoeddus wedi newid agweddau i gefnogi datblygiad rhwydweithiau o'r fath, gyda phwyslais ar roi mwy o reolaeth i unigolion a datblygu modelau gwasanaeth newydd o dan arweiniad defnyddwyr, yn cynnwys mentrau cydweithredol a chymdeithasol. Mae AC yn falch iawn o fod yn rhan o'r datblygiadau hyn gyda'n gwaith yn denu sylw ar draws y Deyrnas Unedig a thramor.

Arweiniodd y projectau newydd at recriwtio dau aelod staff newydd: Rhiannon Hicks, swyddog datblygu Galluogi Cymru a Rebecca Newsome, swyddog datblygu Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion. Mae'r ddwy wedi setlo'n gyflym yn eu swyddi ac eisoes wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith AC, yn arbennig wrth gysylltu ag aelodau hen a newydd ar draws y wlad.

Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i bob aelod staff a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am eu gwaith caled drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr aelodau a rhanddeiliaid yn sylwi'n aml ar ymroddiad pawb o fewn AC a dyna beth sy'n gyrru ein gwaith ymlaen, dim ots pa heriau byddwn yn wynebu fel corff sy'n lleisio barn pobl anabl ac yn ymdrechu i gael hyd i atebion arloesol i'w helpu i fwynhau bywydau llawn.

**Rhian Davies** *Prif Weithredwraig*

# Nod 1

## Datblygu Anabledd Cymru fel corff cryf o dan arweiniad ei aelodau

Fel corff ymbarél mae Anabledd Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r aelodau, helpu i ddatblygu cyrff anabl newydd a darparu gwybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau.

## Datblygu Grwpiau Newydd

Croesawyd dau gorff anabl newydd fel aelodau llawn:

- Pobl Anabl Gyda'i Gilydd (Ceredigion)
- Action on Disability and Work UK

## Hyfforddi a Datblygu Adnoddau

*Pob cyfarfod wedi'i drefnu'n dda ac yn ddiddorol, gan roi cyfle i bobl fel fi leisio barn a chanfod ble i gael cymorth. Wrth adael ysbyty ar ôl colli braich neu goes, nid oes unrhyw un wrth gefn, rhaid ymdopi ar ben eich hun, ond gyda'ch cymorth chi mae bywyd ychydig yn well a gwybodaeth gen i am ffynonellau cymorth. Diolch.*

**Aelod, arolwg polisi, hyfforddi a datblygu (Mawrth 2015)**

Yn yr arolwg strategol, dywedodd yr aelodau mai 'hyfforddiant' oedd y gwasanaeth roeddent yn gwerthfawrogi fwyaf, yn cynnwys darparu gwybodaeth a datblygu gallu unigolion. Drwy ein rhaglen digwyddiadau a phrojectau, parhawyd i ymateb i anghenion wrth drefnu seminarau, gweithdai a sioeau teithiol amrywiol ar draws y wlad. Cefnogwyd hynny gyda gwybodaeth gynhwysfawr ar ein gwefan newydd, ynghyd ag E-newyddion misol a negeseuon rheolaidd ar Facebook a twitter.

Darparodd pedwar project o dan ein rheolaeth gyfleoedd hyfforddi pellach ar gyfer aelodau a grwpiau eraill: *Bywydau Digidol; Lleisiau Cymunedol; Galluogi Cymru a Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion*.

## *Bywydau Digidol*

Gyda chyllid gan fenter Cymunedau 2.0 mae'r project wedi'n helpu i daclo eithrio digidol wrth drefnu gweithdai ar draws y wlad.

Daeth i ben yn Rhagfyr 2014 ar ôl cynnal 8 gweithdy a 15 sesiwn arbennig yn y 18 mis ar gyfer 530 cyfranogwr. Darparwyd gweithdai yn sir Benfro, Penybont, Llandudno, Abertawe, Llanelli, Glyn Ebwy a'r Wyddgrug. Trefnwyd ar gyfer grwpiau Cymdeithas Strôc; Breathe Easy; Pobl yn Gyntaf Abertawe; Touch Trust; Dimensions; Disability Can do; Coleg Cambria; Remploy & Clymblaid Pobl Anabl Penybont.

*Diddorol ac ymarferol iawn, gan sylweddoli gymaint nad oeddwn wedi darganfod o'r blaen, pethau pwysig.*

*Diwrnod da gyda lot o wybodaeth am ategolion, addasiadau a gwefannau.*

*Diddorol iawn, gyda llawer o gyngor a gwybodaeth i'w drosglwyddo.*

## Lleisiau Cymunedol

### *Sir Benfro*

Rydym yn falch o weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Deillion Cymru fel rhan o bortffolio projectau PAVS *Cymunedau Cryfach: Gwasanaethau Gwell*, gyda chyllid gan y Loteri Fawr.

Rydym yn cydweithio gyda Chyngor Deillion Cymru ar broject **Cynllunio ar y Cyd** gyda'r nod o roi cyfle i bobl anabl sy'n byw neu'n gweithio yn sir Benfro i gael dylanwad ar gynlluniau gwasanaethau er gwella darpariaeth yn y sir.

Trefnwyd chwe diwrnod hyfforddi - hyfforddiant cydraddoldeb anabledd (Hydref 2014); cynhwysiad digidol (Rhagfyr 2014); deall a defnyddio eich hawliau (Ionawr 2015); helpu i wella gwasanaethau (Mawrth 2015) a deuddydd *hyfforddi'r hyfforddwr* (Mai a Mehefin 2015), rhaglen mewn partneriaeth â PLANED. Cwblhawyd y rhaglen gan 12 person anabl. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf er dod i adnabod mwy o bobl anabl ar draws y sir a pharhau i weithio gyda chyrff anabl lleol, yn cynnwys Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a Grŵp Mynediad Sir Benfro.

*Gwych oherwydd roedd Braille ar gael.*

*Diddorol a chyfleoedd rhwydweithio da.*

*Byddaf yn herio arweinwyr lleol ar benderfyniadau byddant yn gwneud ar ran pobl anabl.*

*Diddorol iawn - argymell ar gyfer eraill - wedi symud ymlaen yn dda.*

*Wedi ymuno â dau bwyllgor er cynnwys nodweddion cydraddoldeb mewn penderfyniadau.*

*Fel arfer, mwynhau wrth ddysgu.*

*Byddaf yn gwella ymwybyddiaeth o grwpiau mynediad.*

*Byddaf yn parhau gyda'r hyfforddiant er mwyn cadw i fyny â pholisïau etc.*

## *Penybont*

Rydym hefyd yn falch o fod yn rhan o *Siapio Bywydau & Cymunedau, Cynllunio ar y Cyd,* project Lleisiau Cymunedol Loteri Fawr NEEDS MUST/ PAN FO ANGEN gan BAVO.

Project o dan arweiniad Clymblaid Pobl Anabl Penybont, gyda ni a'r Cyngor Deillion yn bartneriaid, gan ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant.

Fe wnaethom drefnu sesiwn hyfforddi cydraddoldeb anabledd yn Chwefror ar gyfer 23 person anabl yn byw yn sir Penybont.

*Diwrnod diddorol iawn.*

*Hoffwn ddod i ddigwyddiadau eraill. Wedi dysgu llawer.*

## *Galluogi Cymru*

Partneriaeth rhwng Anabledd Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru a Chanolfan Byw'n Annibynnol Dewis, gyda chyllid gwerth £318,000 dros dair blynedd ar ffurf grant cydraddoldeb a chynhwysiad Llywodraeth Cymru. Lansiwyd yn ffurfiol gan Lesley Griffiths, gweinidog cymunedau & trechu tlodi, ar 25 Medi 2014.

Wrth lansio'r project, dywedodd y gweinidog:

> *"Mae gan Steve Harris (prif weithredwr DEWIS) a'i gydweithwyr lwyth o brofiad ar ôl sefydlu DEWIS a'i ddatblygu i'r corff y mae heddiw.*
>
> *Cydnabyddir Anabledd Cymru fel y prif gorff yng Nghymru yn hyrwyddo'r model anabledd cymdeithasol, gydag enw da am weithredu projectau llwyddiannus.*
>
> *Yn yr un modd, mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru flynyddoedd o brofiad o helpu grwpiau hen a newydd i*




*ddatblygu i fod yn fentrau cymdeithasol neu gydweithredol.*

*Gyda'i gilydd maent yn dîm grymus iawn.*

*Mae'n dda gweld tri chorff llwyddiannus yn cydweithio fel hyn. Bydd eu profiad, gwybodaeth a sgiliau'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer project Galluogi Cymru."*

Bydd y project yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion anabl gyda'r nod o wneud y dilynol:

- Datblygu pobl ifanc anabl fel arweinwyr y dyfodol drwy gyfrwng Galluogi Cymry Ifanc
- Cryfhau cyrff pobl anabl
- Helpu i sefydlu cyrff pobl anabl newydd
- Cefnogi datblygiad dwy ganolfan byw'n annibynnol fel mentrau cymdeithasol.

Bydd project Galluogi Cymru yn trefnu rhaglen hyfforddi chwe mis ym mhedwar rhanbarth y wlad dros y ddwy flynedd nesaf. Cwblhawyd rhaglen un (Penybont) a rhaglen dau (Caerfyrddin) gyda 27 oedolyn a 10 person ifanc anabl wedi cymryd rhan. Roedd y 13 unigolyn a gwblhaodd eu gweithlyfrau ar gyfer Sgiliau Dinasyddiaeth Actif Lefel 1

Agored Cymru wedi pasio, a 5 wedi derbyn cymhwyster Dinasyddiaeth Lefel Mynediad 1.

Dywedodd un o'r cyfranogwyr:

*'Roedd yr holl brofiad hyfforddi'n bositif, trefnus a gwerthfawr, gydag agwedd yr hyfforddwyr yn wych. Digwyddiad trefnus iawn, gyda'r wybodaeth yn fy helpu i wneud llawer mwy yn fy ngwaith gwirfoddol. Project ardderchog wedi'i weithredu'n wych gan Anabledd Cymru. Da iawn, rwy'n edrych ymlaen at gael mwy o hyfforddiant, roedd yn bleser pur yn cynnwys cyfarfod aelodau o gyrff eraill.'*

## Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion

Project arloesol sy'n bartneriaeth rhwng Anabledd Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, gyda chyllid gan gronfa arloesi'r Loteri Fawr o Hydref 2014 tan fis Mawrth 2018.

Bydd yn ceisio helpu pobl anabl i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau wrth ddatblygu mentrau cydweithredol i reoli taliadau uniongyrchol.

Lansiwyd yn ffurfiol ar 25 Mawrth 2015 yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd gan yr Athro Mark Drakeford AC, gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.



Dywedodd yr Athro Mark Drakeford:

*"Dyma fodel mentrau cydweithredol i reoli taliadau uniongyrchol sy'n cynnig cyfle i bobl reoli eu bywydau - yn annibynnol - fel dinasyddion llawn."*

Noddwyd y digwyddiad gan Aled Roberts AC a agorodd y lansiad wrth ganmol y project:

*"Mae taliadau uniongyrchol yn arf pwysig i hyrwyddo byw'n annibynnol ar gyfer pobl anabl. Bydd y project yn cynyddu cyfleoedd i bobl anabl reoli eu cymorth a'u bywydau. Rwy'n falch iawn o noddi lansiad y project cyffrous yma."*




Croesawyd y siaradwr gwadd Dr Adolf Ratzka o Sweden, sylfaenydd STIL, menter cymorth personol yn Sweden, a rannodd ei brofiad o ddatblygu mentrau cydweithredol fel ffordd o gynnal byw'n annibynnol.



*"Mae byw'n annibynnol yn golygu ein bod yn mynnu'r un opsiynau a rheolaeth dros ein bywydau beunyddiol ag y mae pobl eraill yn cymryd yn ganiataol."*

Yn ogystal, cytunodd Dr Ratzka i gyflwyno seminar ar gyfer aelodau grŵp project Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion a gwesteion ar 26 Mawrth 2015. Cyfle prin a gwerthfawr i ddysgu o un brif ymgyrchwyr hawliau anabl Ewrop am y linciau rhwng mentrau cydweithredol a byw'n annibynnol.

Bydd y project yn helpu un grŵp yng Nghymru i sefydlu menter taliadau uniongyrchol, gyda'r nod o ddechrau helpu ei aelodau erbyn Ebrill 2017.






## Anabl?...neu Nid-Anabl?

Trefnwyd tri digwyddiad er herio'r rhagdybiaethau, stereoteipiau ac anffafriaeth mae pobl anabl yn wynebu.

Cynhaliwyd dau weithdy, yn Aberystwyth ar 28 Mai 2014 a Llandudno (11 Mehefin) gyda 47 person anabl gydag amrediad o amhariadau o bob rhan o'r wlad. Trafodwyd ymdeimlad pobl anabl o'u hunain ac eraill; triniaeth o bobl anabl ar y cyfryngau; agweddau at bobl anabl; hysbysu achosion troseddau atgasedd ac effeithiau'r diwygiadau lles.

Defnyddiwyd adnoddau digidol i gofnodi sylwadau a phrofiadau pobl yn ystod y gweithdai er mwyn eu bwydo i gynhadledd genedlaethol.

Cynhyrchwyd ffilm fer gydag isdeitlau er mwyn darparu platfform ar gyfer lleisiau a phrofiadau pobl anabl i'w dangos yn y gynhadledd. Mae modd gwylio'r ffilm ar ein gwefan, facebook ac youtube.

Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol yng Nghaerdydd ar 25 Mehefin 2014 gan wahodd cynrychiolwyr o'r gymuned anabl, y cyfryngau, heddlu a'r byd academaidd. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Laurence Clark comedïwr rhyngwladol ac ymgyrchydd hawliau anabledd, yr Athro Nicholas Watson prif ymchwilydd *Bad News for Disabled People: How the Newspapers are Reporting Disability*, Prifysgol Glasgow, Fran

Targett cyfarwyddwraig CAB Cymru a Syr Bert Massie cadeirydd y cyn-Gomisiwn Hawliau Anabl.

Cadeirydd y gynhadledd oedd cyflwynydd BBC Cymru, Bethan Rhys Roberts, gyda'r diwrnod yn cynnwys anerchiad gan brif weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC.

Croesawyd 88 person o amrediad eang o gyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector yn cynnwys BBC Cymru; Adran Gwaith & Pensiynau; Prifysgol Caerdydd; Heddlu Gwent; Heddlu Gogledd Cymru; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Caerffili; Cyngor Sir Ceredigion; Wales and West Housing Association; Bwrdd Iechyd Cwm Taf; Plant yng Nghymru; Cymorth Dioddefwyr a llawer mwy.




Trafodwyd amryw themâu yn cynnwys 'Anabledd a hunaniaeth'; 'Trin pobl anabl & troseddau atgasedd anabledd ar y cyfryngau'; 'effeithiau'r diwygiadau lles' a 'Tua Galluogi Cymru'.







## Seminar Blynyddol



Trefnwyd seminar *Bywydau Digidol* yng Nghanolfan Catrin Finch, Wrecsam gan groesawu 60 person. Y cadeirydd oedd Andy Rickell, prif weithredwr Executive Action on Disability and Work UK, gyda'r siaradwyr yn cynnwys Lesley Griffiths AC, gweinidog cymunedau & trechu tlodi, Andrew Jacob pennaeth uned cynhwysiad digidol Llywodraeth Cymru, Derek Walker prif weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru, Tina Evans swyddog cyfathrebu & cynhwysiad digidol Anabledd Cymru, Geraint Strello, rheolwr rhanbarthol BT Cymru. Ar ddiwedd y diwrnod cyflwynwyd sesiwn iPad rhyngweithiol gan Tim Lloyd-Yeates, sylfaenydd & cyfarwyddwr gweithredol Alive! Roeddem yn drist iawn o glywed fod Tim wedi marw ers hynny (Gorffennaf 2015).

## Gwybodaeth

Yn ogystal â gweithgareddau wyneb yn wyneb byddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o ddatblygu cyfleoedd rhwydweithio newydd ar gyfer aelodau, ynghyd â phobl anabl nad ydynt yn rhan o grwpiau. Awgrymodd arolwg aelodaeth strategol bod aelodau'n gwerthfawrogi derbyn gwybodaeth yn electronig a defnyddio adnoddau arlein, yn cynnwys ebost; gwefannau; facebook a twitter.

facebook twitter YouTube

## Gwefan

**22,560 ymwelydd**

**73.3% ymwelydd newydd**

**Tudalennau wedi'u gwylio 75,516**

**Tudalennau poblogaidd**

1. Hafan
2. Model Anabledd Cymdeithasol
3. Newyddion

## Cyfryngau cymdeithasol

facebook Likes 1360

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 1360 wedi 'hoffi' ein tudalen Facebook – cynnydd o 250 dros y flwyddyn. Defnyddir yn rheolaidd gan aelodau i bostio sylwadau a rhannu profiadau ar bwyntiau o ddiddordeb.

twitter 7811

Cynyddodd ein dilynwyr twitter 1642 i 7811 erbyn diwedd y flwyddyn, gan gynnig dull gwerthfawr o hysbysu aelodau a rhanddeiliaid o'r datblygiadau diweddaraf.

Lansiwyd *cyfeiriadur arlein eHygyrchedd Cymru* yn Rhagfyr 2014 – siop un stop ar gyfer cyngor a gwybodaeth technolegau cynorthwyol. Mae'n cynnwys gosodiadau meddalwedd a chaledwedd er hwyluso defnyddio cyfrifiaduron a manylion cyrff sy'n gallu helpu ymhellach. Cyllidwyd gan fenter Cymunedau 2.0 Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd y wefan gan Fforwm eHygyrchedd Cymru, gyda'r aelodau yn ei gynnal o dan gadeiryddiaeth Anabledd Cymru.

## Enewyddion

Erbyn hyn gellir darllen Enewyddion ar y wefan ac mae'r fersiwn newydd yn parhau'n ffynhonnell newyddion werthfawr ar gyfer yr aelodau.

## Nod 2

### Cynrychioli diddordebau pobl anabl Cymru i'r llywodraeth a chyrff eraill gyda'r nod o hyrwyddo polisïau ar gyfer pobl anabl

### Grŵp Anabledd Trawsbleidiol

Grŵp sy'n trafod materion cydraddoldeb anabledd, yn cynnwys gweithredu'r model anabledd cymdeithasol a'r hawl i fyw'n annibynnol.

Ar hyn o bryd y cyd-gadeiryddion yw Mark Isherwood AC (Ceidwadwyr) ac Aled Roberts AC (Democratiaid Rhyddfrydol), gyda'r grŵp yn cynnwys aelodau o'r pedair plaid ac aelodau o Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru, y corff nawdd, sy'n cynnwys cyrff ymbarél yn cynrychioli diddordebau pobl anabl Cymru.

Trefnir tri neu bedwar cyfarfod y flwyddyn, yn cynnwys un tu allan i Gaerdydd. Anabledd Cymru sy'n gweinyddu'r cyfarfodydd ar ran Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Anabledd Dysgu Cymru, Mind Cymru, Cyngor Deillion Cymru a Chyngor Pobl Fyddar Cymru.

Cynhaliwyd tri chyfarfod yn y cyfnod Ebrill 2014 - Mawrth 2015, yn cynnwys un yn y gogledd. Trafodwyd amryw faterion yn cynnwys ymchwil taclo bwlio, nod perfformiad a chod ymarfer ansawdd adfocatiaeth annibynnol, arolwg adfocatiaeth Mind Cymru, gwelliant adfocatiaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), Cronfa Byw'n Annibynnol, anabledd & cyflogaeth, adroddiad ar Gonfensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig, asesiad PIP, Mynediad i Waith a'n projectau Galluogi Cymru a Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion.

### Polisïau ac ymgynghoriadau

Rydym wedi parhau i ddylanwadu ar ac ymateb i ymgynghoriadau a pholisïau'r llywodraeth. Eleni, fe wnaethom gynrychioli Clymblaid Codi Tâl Cymru ar Grŵp Rhanddeiliaid

Talu am Ofal; cyfrannu at grŵp rhanddeiliaid cronfa byw'n annibynnol Llywodraeth Cymru ac ymateb i ymgynghoriadau ar drefn newydd cronfa byw'n annibynnol yng Nghymru; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) - gan gyfrannu at y grwpiau technegol isod:

- Fframwaith cymhwyster
- Mentrau cydweithredol a chymdeithasol, a gwasanaethau o dan arweiniad defnyddwyr
- Taliadau uniongyrchol
- Adfocatiaeth

Wedi ymateb ar y cyd â Chynghrair Cymru ar gymorth o dan arweiniad dinasyddion ar rannau 3 a 4 o'r rheoliadau a'r cod ymarfer; wedi cefnogi ymateb Grŵp Arolygu Taliadau Uniongyrchol ar daliadau uniongyrchol.

Yn ogystal wedi ymateb i ymgynghoriadau eraill

- Cynllun Trafnidiaeth De Orllewin Cymru
- Adolygiad Tirweddau Dynodedig Llywodraeth Cymru
- Proses Dylunio mewn Cynllunio Llywodraeth Cymru; Ymchwiliad Tlodi Cynulliad Cymru
- Ymchwiliad Cynulliad Cymru i'r Mesur Rhenti Cartrefi (Cymru)
- Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol consortia trafnidiaeth rhanbarthol TraCC, SWWITCH, SEWTA & Taith)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru)

Rydym yn parhau i gynrychioli diddordebau pobl anabl ar amrediad eang o grwpiau rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth a'r trydydd sector yn ogystal â'r rhai a nodwyd eisoes:

- Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru
- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru
- Clymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol WCVA
- Grŵp Cyllideb Cydraddoldeb Ymgynghorol Llywodraeth Cymru
- Cynghrair Cynghreiriau Iechyd a Gofal Cymdeithasol WCVA
- Grŵp Arolygu Taliadau Uniongyrchol Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
- Cynghrair Henoed Cymru
- Fforwm Cyflawni Potensial DWP
- Fforwm Strategaeth Cyflogi Anabledd ac Iechyd DWP
- Cynghrair Cymorth dan Arweiniad Dinasyddion Cymru
- Fforwm Datblygu Mentrau Cymdeithasol Cymru
- Grŵp llywio strategol Cymunedau Digidol Cymru
- Rhwydwaith Cynllun Cymorth Taliadau Uniongyrchol

## Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig

Ar y cyd ag Inclusion Scotland, Reclaiming our Future Alliance (ROFA), UK Disabled Peoples Council (UKDPC) a Disability Action Northern Ireland rydym wedi cynhyrchu rhestr o faterion i'w cyflwyno i bwyllgor archwilio'r Cenhedloedd Unedig.

Roeddem yn rhan o bedwar cyfarfod pedair cenedl:

Ebrill 2014 (Belfast); Mehefin 2014 (Glasgow); Gorffennaf 2014 (Llundain); Awst 2014 (Caerffili) a Chwefror 2015 (Llundain)

Trefnodd Anabledd Cymru gyfarfod pedair cenedl yn Awst 2014.

## Nod 3

### Sefydlu, a chydweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynnal ymgyrchoedd i wella gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd

Mae ymgyrchu ar ran yr aelodau'n dal yn flaenoriaeth i ni, yn arbennig felly yn yr hinsawdd ariannol bresennol a'r effaith ar allu pobl anabl i fyw'n annibynnol. Yn ogystal â gostwng budd-daliadau a gwasanaethau, mae llawer o bobl anabl yn adrodd bod y cyhoedd yn gynyddol yn ymateb yn wael iddynt. Mae'n debyg bod hynny'n gysylltiedig ag adroddiadau o dwyll wrth hawlio budd-daliadau ar y cyfryngau, gan eu disgrifio fel pobl nad ydynt am weithio ac yn ffugio amhariadau.

O ganlyniad rydym wedi parhau ag ymgyrchoedd byw'n annibynnol a throseddau atgasedd anabledd er mwyn codi ymwybyddiaeth, dileu rhwystrau a lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles.



## Maniffesto Pobl Anabl

Ar 3 Rhagfyr, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl 2014 y Cenhedloedd Unedig, lansiwyd ein Maniffesto Pobl Anabl yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd. Daeth 50 cynrychiolydd ynghyd i drafod materion yn gysylltiedig â hawliau a chydraddoldeb pob anabl.

Arweiniodd hynny at drafodaeth o ba fesurau roedd pobl anabl am weld Llywodraeth Cymru yn cymryd. Trefnwyd sioe deithiol Maniffesto Pobl Anabl yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2015. Cynhaliwyd tri gweithdy - yn ardaloedd Conwy, Aberystwyth a Chastell-nedd, gyda dros 60 yn eu mynychu.

Yn Ionawr 2015 cynhaliwyd arolwg arlein am 12 wythnos. Crynhodd sylwadau pobl anabl ar beth oedd angen o'r pleidiau gwleidyddol a'r Llywodraeth nesaf o fis Mai 2016. Derbyniwyd dros 160 ymateb.

Arweiniodd yr ymgynghori at lunio pum galwad gweithredu gyda'r nod o hyrwyddo dull strategol o wireddu gweledigaeth Galluogi Cymru Llywodraeth Cymru, a amlinellwyd yn ei Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol. Byddwn yn lansio'r Maniffesto ym mis Medi 2015.

Mae Anabledd Cymru yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y trafodaethau a'r arolwg arlein, a arweiniodd at ddatblygu'r Maniffesto.

Ymateb yr aelodau o ran beth oedd fwyaf defnyddiol yn y digwyddiadau maniffesto:

Clywed amrywiaeth o syniadau.

Gwrando ar farn pobl eraill.

Dysgu mwy am yr ymgyrch.

Deall bod lleisio barn yn gallu helpu i greu deddfwriaeth newydd.

Clywed ymrwymiadau maniffesto'r trafodaethau bord gron.

Rhannu gwybodaeth.

Rhwydweithio a'r newyddion diweddaraf am fentrau newydd.

Cryfder barn pobl anabl a nid-anabl am fyw'n annibynnol.

Anabledd Cymru yn dangos sut i fynd ymlaem i'r cam nesaf.

Rhannu sylwadau/profiadau – gobeithio gweld pethau'n dechrau datblygu.

## Troseddau Atgasedd Anabledd

Grŵp Gweithredu Troseddau Atgasedd Anabledd Cymru – Rydym yn aelod blaenllaw o'r grŵp, gan drefnu'r cyfarfodydd a chadeirio'r trafodaethau. Cynhaliwyd tri chyfarfod eleni.

Mae'r grŵp yn cynnwys cyrff sydd wedi ymrwymo i daclo aflonyddwch a throseddau atgasedd anabledd yng Nghymru. Bydd yr aelodau'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth am fentrau er osgoi dyblygu ymdrechion a gwasanaethu dioddefwyr yn well.

Mae Anabledd Cymru yn aelod o grŵp ymgynghorol annibynnol Llywodraeth Cymru ar droseddau atgasedd, cadeirydd Lesley Griffiths AC gweinidog cymunedau & trechu tlodi. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Hydref 2014.

Yn ogystal, byddwn yn helpu i archwilio achosion troseddau atgasedd drwy Banel Archwilio Gwasanaeth Erlyn y Goron.



## Nod 4

### Datblygu trefniadau cyllid cynaladwy

Parhawyd â'r strategaeth o geisio cael cyllid o amryw ffynonellau wrth ddatblygu projectau arloesol. Ar y cyd â'n partneriaid Disability Action, Disability Rights UK ac Inclusion Scotland, derbyniwyd cyllid gan gronfa'r Loteri Fawr i weithredu rhaglen bwysig ar draws y Deyrnas Unedig.

### Ymchwil Anabledd ar Fyw'n Annibynnol a Dysgu (DRILL)

Rhaglen ymchwil ar draws y Deyrnas Unedig sy'n bartneriaeth rhwng pedwar corff anabledd y Deyrnas Unedig - Disability Action Gogledd Iwerddon; Disability Rights UK Lloegr; Inclusion Scotland; ac Anabledd Cymru.

Mae'r rhaglen wedi derbyn cyllid o £5 miliwn gan gronfa'r Loteri Fawr. Gweithredir y rhaglen dros gyfnod o bum mlynedd, gan ddechrau ym Medi 2015. Bydd yn sefydlu 6 project ymchwil mawr ac 20 project llai fydd yn arwain at sefydlu 14 project peilot. Bydd yn lledu'r projectau peilot ac ymchwil ar draws y Deyrnas Unedig.

Bydd yn sefydlu grŵp ymgynghorol cenedlaethol ym mhob cenedl er mwyn darparu grŵp o arbenigwyr yn cynnwys pobl anabl, academyddion ac arweinwyr polisi a phroffesiynol i wneud argymhellion ar brojectau i'w cyllido a chynghori ar hyrwyddo, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso'r gwaith.

Ethos y rhaglen yw cydgynhyrchu er sicrhau bydd pobl anabl yn rhan o bob cam o'r broses, o amlinellu syniadau i brofi canlyniadau'r ymchwil.

## Nod 5

### Cynnal trefniadau llywodraethu a rheoli effeithiol a chynaladwy

Ar ran yr aelodau, byddwn yn rhoi pwyslais mawr ar weithredu'n gywir a chymwys, gan gynnal adolygiadau o'r holl bolisïau a gweithdrefnau er sicrhau eu bod yn gymwys.

**Safon y Ddraig Werdd**

Cyrhaeddwyd lefel 4 Safon y Ddraig Werdd, safon rheoli amgylcheddol sy'n ymestyn i lefel 5 fel y pwynt uchaf. Mae lefel 4 yn galw am ddatblygu system rheoli amgylcheddol ffurfiol ac adrodd ar lwyddiannau amgylcheddol. Canmolwyd Anabledd Cymru am gyrraedd safon mor uchel fel corff cymharol fach.

**Buddsoddwyr mewn Pobl**

Rydym yn parhau i gynnal achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl wrth neilltuo adnoddau i ddatblygu cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr. Yn ogystal ag adolygu rhaglen hyfforddi a datblygu Anabledd Cymru bob blwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd bolisi hyfforddi a datblygu diwygiedig. Mae'n adlewyrchu pa mor bwysig yw'r maes wrth wireddu amcanion y corff.

# Strwythur
## y Corff

- **Bwrdd Cyfarwyddwyr**
  - **Prif Weithredwraig**
    Rhian Davies
    - **Cynorthwy-ydd Gweithredol**
      Kelly Stuart
    - **Polisi a Materion Cyhoeddus**
      - **Rheolwraig**
        Miranda French
        (Fiona McDonald
        cyfnod mamolaeth
        28 Hydref -
        Awst 2014)
      - **Swyddog Polisi (Mynediad & Trafnidiaeth)**
        Rhyan Berrigan
      - **Swyddog Cyfathrebu & Cynhwysiad Digidol**
        Tina Evans
      - **Swyddog Polisi (Byw'n Annibynnol)**
        Paul Swann
    - **Tîm Aelodaeth & Projectau**
      - **Rheolwr Aelodaeth & Projectau**
        Victoria Baldwin
      - **Swyddog Datblygu Galluogi Cymru**
        Rhiannon Hicks
        o 19Awst 2014
      - **Swyddog Datblygu Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion**
        Rebecca
        Newsome
        o 13 Hydref 2014
    - **Cyllid a Gweinyddiaeth**
      - **Rheolwraig Swyddfa**
        Paula Reed
        - **Cynorthwy-ydd Cyllid a Gweinyddol**
          Julie Bilton

# Aelodau
## AC 2014/2015

Caffaeliadau Prifysgol Caerdydd
Action on Disability and Work UK
Action on Hearing Loss Cymru
Age Concern Cymru
Bwrdd Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan
Antur Teifi
Grŵp Mynediad Arfon
Gofal Arthritis Cymru
Breakthrough UK Limited
Clwb Anabledd Aberhonddu a'r Cylch
Clymblaid Pobl Anabl Penybont
British Limbless Ex-Service Mens Association
C.L.I.P
Cymdeithas Tai Cadwyn
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Mynediad a Byw'n Annibynnol Caerdydd a'r Fro
Tai Cymunedol Caerdydd
Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Caerdydd Broydd a Chymoedd
Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd
Clymblaid Gweithredu Anabledd Sir Gâr
Grŵp Mynediad Anabledd Sir Gâr
Catch Up Ltd
Canolfan Byw'n Annibynnol De Gwynedd
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Dinas a Sir Abertawe
Cymdeithas Tai Clwyd Alun
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Grŵp Mynediad Gwirfoddol Sir Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
DAGTHA
Destek Accessibility Technology Solutions
Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis

Grŵp Gweithredu Anabledd Cymru
Project Cyngor Anabledd
Celfyddydau Anabledd Cymru
Disability Law Service
Canolfan Adnoddau Anabledd
Chwaraeon Anabledd Cymru
Disabled People Together (Ceredigion)
Ehlers-Danlos Support UK
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Fieldsman Trails - Access Consultancy
First Choice Housing Association Ltd
Fforwm Anabledd Sir y Fflint
GAVO
Cyngor Cymuned Glyn-nedd
Groundwork Gogledd Cymru
Grŵp Mynediad Meirionnydd Access Group
Cŵn Tywys
Menter Cwm Gwendraeth (Job Force Wales)
Clwb Modurwyr Anabl Gwent
Tîm Cydlyniant Heddlu Gwent
Headway Cardiff/Caerdydd
Headway Swansea/Abertawe
Hypermobility Syndromes Association
Law Works
Anabledd Dysgu Cymru
Cymdeithas MS Cymru
Cyngor Tref Machynlleth
Mencap Cymru
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful
Cartrefi Cwm Merthyr
Cyngor Sir Fynwy
Cymdeithas Tai Sir Fynwy
Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau
Cyngor Tref Arberth
Comisiwn Cenedlaethol Pobl gydag Anabledd
Cyngor Castell-nedd Porth Talbot
Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Porth Talbot
Grŵp Gweithredu Rhwydwaith Anabledd Castell-nedd Porth Talbot

Grŵp Mynediad Casnewydd
Cartrefi Dinas Casnewydd
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG
Grŵp Mynediad Sir Benfro
Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Cyngor Tref Penarth
Remploy Ltd
Grŵp Mynediad Rhondda Cynon Taf
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
RNIB Cymru
Cymru Ddiogelach
SAIL
Scope
Sefydliad St Loyes Foundation
Sense Cymru
Services for Independent Living (s4il)
SEWREC
Shaw Trust
Heddlu De Cymru
Cymdeithas Strôc Cymru
Gofal a Thrwsio Abertawe
Menter Anabledd Abertawe (SCVS)
Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
Tai Pawb
TARAN Disability Forum Ltd
Cronfa Goffa Keith Morris
UNISON Cymru/Wales
Unite The Union
Prifysgol Morgannwg
Cyngor Bro Morgannwg
Vision Support
Viva! (Cymru)
Cyngor Pobl Fyddar Cymru
Cyngor Deillion Cymru
Gwasanaethau Asesu Symudedd a Gyrru Cymru
Grŵp Mynediad Ynys Môn
Lleisiau Ifanc er Dewis